**LC1412**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) ("Gorchymyn 1995") yn pennu'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio, apelau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a materion perthynol i'r graddau nad yw'r materion yma wedi'u nodi yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â hi. Mae'r Gorchymyn yma yn mewnosod erthygl 4D yng Ngorchymyn 1995. Mae'r erthygl 4D newydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru ac mae'n darparu ar gyfer datganiadau mynediad y mae'n ofynnol eu cael i gyd-fynd â cheisiadau penodol am ganiatâd cynllunio.

### Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Dim ond er mwyn gwneud deddfwriaeth y mae'r diwygiad i adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n arwain at y diwygiad yma wedi'i gychwyn. Fe fydd angen ei gychwyn at y dibenion eraill cyn 30 Mehefin 2007, pan ddaw'r Gorchymyn yma i rym.

### David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**5 Rhagfyr 2006**